Mae'r dull adolygu hwn yn cydymffurfio â'r ESG

# Monitro Blynyddol ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol

## SwaN Global Education LLP

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg

# Monitro Blynyddol: Asesiad pen desg

## SwaN Global Education LLP

## Chwefror 2026

## Canlyniad

1 O'r datganiad blynyddol a'r dystiolaeth ddogfennol, mae'r tîm monitro yn dod i'r casgliad bod SwaN Global Education LLP (Y Coleg, Prifysgol Abertawe) yn gwneud cynnydd **derbyniol** ar weithredu eu cynllun gweithredu.

## Crynodeb Monitro

2 Cyflwynodd y Coleg Ffurflen Fonitro wedi'i chwblhau ar 18 Ionawr 2026, ynghyd â 67 o eitemau o dystiolaeth, gan gynnwys y Ffurflen Dychwelyd Data. Adolygwyd y dystiolaeth gan y Swyddog QAA a'r Adolygydd, a chytunwyd bod angen rhagor o dystiolaeth i gwblhau'r broses adolygu. Darparwyd y dystiolaeth hon yn briodol.

3 Dangosodd y ffigurau a ddarparwyd ostyngiad mewn cofrestriadau o fwy na 60% rhwng 2023/24 a 2024/25. Nododd y sylwadau fod newidiadau mewn marchnadoedd rhyngwladol, gan gynnwys tynnu Prifysgol Abertawe oddi ar restr noddwyr cymeradwy Qatar a diwedd y cynnydd ôl-bandemig mewn recriwtio o Bangladesh ac India, wedi arwain at duedd gyffredinol ar i lawr mewn cofrestriadau.

4 Mae Cynllun Gweithredu effeithiol ar waith ac mae gweithgaredd wedi bod mewn perthynas â phob argymhelliad ond gydag un (allanoldeb) heb ei gwblhau'n llawn eto.

**Argymhelliad 1: Cryfhau'r defnydd o arbenigedd allanol**

5 Mae'r Coleg wrthi'n mabwysiadu prosesau newydd i fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn, ond nid yw'r rhain wedi'u cwblhau'n llawn eto ar adeg yr adolygiad.

6 Mae Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu'r Coleg wedi gweithio gyda Phrifysgol Abertawe (Y Brifysgol) i wneud trefniadau priodol ar gyfer allanoldeb. Mae'r Brifysgol wedi gofyn i'r Coleg ddefnyddio cysylltiadau allanol presennol ac wedi darparu rhestr o gysylltiadau.

7 Gofynnwyd i Gyfarwyddwyr Rhaglenni gyfathrebu ag arholwyr posibl yn uniongyrchol i wneud trefniadau ar gyfer gwaith ychwanegol. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau ariannol yn golygu efallai na fydd yn bosibl cael y trefniadau hyn ar draws pob rhaglen. Fodd bynnag, mae'r Coleg wedi nodi a dechrau'r broses benodi ar gyfer dau arholwr allanol, sydd wedi'u cyflwyno i'w cymeradwyo gan y Brifysgol.

8 Mae'r Coleg bellach yn ymchwilio i sicrhau arbenigedd allanol trwy ei rwydweithiau ei hun gyda'r bwriad o gael mewnbwn allanol i weithgarwch cymedroli ac adolygu modiwlau erbyn mis Mai 2026. Bydd proffiliau rôl presennol o'r Brifysgol yn cael eu defnyddio wrth benodi cyfranwyr allanol.

**Argymhelliad 2: Codi ymwybyddiaeth myfyrwyr o ganlyniadau**

9 Mae canllaw 'sut i' wedi'i gynhyrchu yn esbonio sut y gall myfyrwyr gael mynediad at eu trawsgrifiadau. Anfonir hwn at fyfyrwyr ynghyd â'u cyhoeddiadau canlyniadau.

10 Mae esboniad fideo effeithiol hefyd ar gael: https://hwb.swansea.ac.uk/colleges/the-college/results-and-transcripts/

**Argymhelliad 3: Deallusrwydd Artiffisial, uniondeb academaidd a defnyddio offer cyfieithu**

11 Wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn, mae'r Coleg wedi:

a. diweddaru ei bolisi Deallusrwydd Artiffisial (AI) a chyfieithu
b. anfon e-bost at yr holl staff am y polisi
c. cynnal cyfarfod staff i drafod y polisi
d. diweddaru'r Isafswm Safonau Staff Academaidd ar gyfer Addysg i sicrhau bod staff yn ymgyfarwyddo â pholisïau AI a chamymddwyn
e. cynnwys dolenni i'r polisi AI yn y Gwiriadau Canvas Staff Academaidd
f. gweithredu gwiriadau gan arweinwyr Academaidd i sicrhau cydymffurfiaeth
g. defnyddio'r Amgylchedd Dysgu Rhithwir (VLE) i gyfleu'r polisi AI a'r polisi cyfieithu i fyfyrwyr
h. defnyddio'r dosbarthiadau Sgiliau Dysgu Rhyngweithiol a Chyfathrebu (ILSC) i gyfleu'r polisi a'r disgwyliadau.

**Argymhelliad 4: Gweithdrefnau cwynion ac apeliadau**

12 Mae gan y Coleg bolisi cwynion ac apeliadau ar gyfer ymgeiswyr bellach (maes pwysig nad oedd wedi'i gynnwys o'r blaen). Hysbysir ymgeiswyr am y polisi trwy ei gynnwys mewn cyfathrebiadau cynnig a gwrthod.

13 Mewn materion eraill, mae'r Coleg yn parhau i ddilyn gweithdrefnau cwynion ac apeliadau'r Brifysgol ei hun.

**Arfer da**

14 Mae'r Coleg wedi parhau â'i drefniadau llywodraethu effeithiol a'i gysylltiadau â rhaglenni a staff Prifysgol Abertawe. Mae goruchwyliaeth strategol yn parhau ar waith.

15 Mae'r Coleg wedi parhau i gryfhau ei drefniadau tiwtora personol trwy benodi Tiwtor Personol Arweiniol sy'n datblygu canllawiau, templedi a gweithgareddau pellach ar gyfer staff a myfyrwyr. Ychwanegwyd cyfathrebiadau ychwanegol wedi'u strwythuro o amgylch derbyniadau a phontio gan adeiladu ar drefniadau cadarnhaol a oedd ar waith ar adeg yr adolygiad.

16 Mae trefniadau rhagweithiol llais myfyrwyr y Coleg wedi parhau i weithredu drwy fforymau myfyrwyr-staff a chynrychiolaeth ar y pwyllgor addysg, yn ogystal â'r ffynonellau adborth anffurfiol effeithiol a gydnabuwyd fel arfer da yn ystod yr adolygiad. Mae ychwanegu Grŵp WhatsApp wedi cryfhau hyn ymhellach.

17 Mae cylchlythyr y Coleg a phresenoldeb gwell Undeb Myfyrwyr hefyd yn ddatblygiadau cadarnhaol.

**Newidiadau perthnasol mewn amgylchiadau**

18 Ni nodwyd unrhyw newidiadau perthnasol, ac mae'r Coleg yn parhau i gynnal safonau academaidd ac ansawdd cyfleoedd dysgu yn effeithiol.

**QAA3045 - R14960 - Mawrth 26**

© The Quality Assurance Agency for Higher Education 2026
Southgate House, Southgate Street, Gloucester GL1 1UB
Rhifau cofrestru'r elusen 1062746 a SC037786

Tel: 01452 557000 (neges llais yn unig)
Gwe: www.qaa.ac.uk